Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd Yr A458 (Ffin Sirol Powys A Swydd Amwythig Ger Treberfedd I Gylchfan Tal-Y-Bont, Y Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau A Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru, ymhen dim llai na 7 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn, yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig i ddiogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra gwneir y gwaith o osod wyneb newydd ar Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") mewn 3 lleoliad rhwng ffin sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd a Chylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng, yn Sir Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol ar eu cyfer, mewn grym yn ysbeidiol o 4 Medi 2012 tan 30 Medi 2012 neu hyd nes symudir ymaith yn derfynol yr arwyddion traffig dros dro. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei wneud rhwng 08:00 o'r gloch ac 18:00 o'r gloch

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

i. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfynau cyflymder 40 mya a 30 mya yn weithredol dros hyd cyfan y darnau penodedig o'r gefnffordd, ond ni fydd y terfyn cyflymder o 10 mya mewn grym ac eithrio pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar unrhyw ddiwrnod penodol.

ii. Gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd yn y darnau o'r gefnffordd pan fydd gwaith confoi yn digwydd.

Er mai yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod hwyaf o 12 mis fel mesur wrth gefn, rhag ofn y bydd angen ad-drefnu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

M D BURNELL
Trafnidiaeth

YR ATODLEN

Ffin Sirol Powys-Swydd Amwythig i Hill Farm

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ffin sirol Powys-Swydd Amwythig i'r dwyrain o Dreberfedd hyd at ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Hill Farm.

U2252 i Bont Reilffordd Cefn

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2252 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r U2248.

Lower Cefn i Dal-y-Bont

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Lower Cefn hyd at fynedfa ac allanfa dwyreiniol cylchfan yr A 483 yn Nhal-y-bont.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A458 Trunk Road (The Powys and Shropshire County Boundary Near Middletown To Buttington Roundabout, Welshpool, Powys) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibition) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst resurfacing works are undertaken on the Shrewsbury – Dolgellau Trunk Road (A458) (hereinafter referred to as "the trunk road") at 3 locations between the Powys and Shropshire County Boundary near Middletown and Buttington Roundabout, Welshpool in the County of Powys.

The restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, are expected to be in force intermittently from 4 September 2012 until 30 September 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are expected to take place between 08:00 hours and 18:00 hours.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:-

i. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The 40 mph and 30 mph speed limits will operate over the full extent of the specified lengths of the trunk road and the 10 mph speed limit will only apply when convoy working is in force on any given day.

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the lengths of the trunk road whilst convoy working is in force.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

SCHEDULE

Powys-Shropshire County Boundary to Hill Farm

The length of the trunk road that extends from a point at the Powys-Shropshire County Boundary east of Middletown to the centre-point of the access to the property known as Hill Farm.

U2252 to Cefn Railway Bridge

The length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the U2252 to the centre-point of its junction with the U2248.

Lower Cefn to Buttington

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the access to the property known as Lower Cefn to the eastern access and egress of the A483 roundabout at Buttington.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE